Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom nos Lun, 21 Medi 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne ac un aelod o'r cyhoedd.
Darlledwyd y cyfarfod yn fyw ar Facebook.

295. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Stephen Beach a Jabez Oakes.

296. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

297. ADRODDIAD Y MAER

Roedd y Maer wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a ganlyn.

10.08 Cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys
Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys
Nifer o gyfarfodydd ynghylch y Felodrom trwy gyfrwng Zoom a chyfarfodydd ynghylch y system traffig un ffordd arfaethedig yn Rhuthun

298. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Deputy Mayor)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy gyfrwng Zoom, cyfarfod ynghylch y Felodrom, cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys, cyfarfod gweithgor Carchar Rhuthun a digwyddiad ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio Cymdeithas Tai Clwyd Alyn.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Adeiladau Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cynorthwyo gydag adleoli'r Banc Bwyd i'w leoliad newydd a'r sesiynau arferol.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy gyfrwng Zoom, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, cyfarfodydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch ynghylch Drysau Agored a chyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy gyfrwng Zoom.
Cyng. Mike van der Eijk	Cyfarfodydd gyda Wendy Nulty ynghylch y prosiect Bwyd Bendigedig a'r Cynghorydd Robyn Lovelock ynghylch y Sied Rhannu a Thrwsio arfaethedig.

298. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley ac Emrys Wynne wedi cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig.

299. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020 yn gywir.*

300. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

301. COFNODION Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Awst 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Awst 2020.*

302. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.*

303. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.*

304. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020.*

305. CYFLWYNIAD YNGHYLCH Y CYNLLUN SIED RHANNU A THRWSIO ARFAETHEDIG

Croesawodd y Maer y Cynghorydd Robyn Lovelock o Gyngor Tref Llangollen i'r cyfarfod. Rhannwyd manylion am y cynllun gyda'r aelodau cyn y cyfarfod a darparodd y Cynghorydd Lovelock drosolwg cryno. Gwahoddwyd yr aelodau i holi cwestiynau. Holwyd sut y byddai pobl yn bwcio'r eitemau, profion trydanol yr eitemau, yr yswiriant ac atebolrwydd am yr eitemau a lefel y cyllid refeniw fyddai'n ofynnol a mynegwyd pryderon y byddai'r cynllun yn achosi anfantais i fusnesau lleol. Diolchwyd i'r Cynghorydd Lovelock am ei hamser a'i mewnbwn.
PENDERFYNWYD*: llunio gweithgor bach yn cynnwys y Cynghorwyr John Wynne Hughes, Anne Roberts a Mike van der Eijk i edrych ar y cynigion yn anwl ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau ar 5 Hydref 2020.*

306. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Adroddodd y Maer fod y Gweithgor wedi cyfarfod a chytuno, yn sgîl y cyfyngiadau Covid-19 sy'n parhau, na ellid llogi'r adeilad ar hyn o bryd. Roedd eitemau olaf y gwaith atgyweirio wedi'u cwblhau. Roedd Rheolwr yr Hen Lys wedi cyflwyno cais i leihau ei horiau o 22.5 awr yr wythnos i 15 awr yr wythnos o 1 Hydref tan 31 Ionawr i ddechrau, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan aelodau'r gweithgor.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad a chytuno gyda'r argymhelliad i gymeradwyo cais Rheolwr yr Hen Lys i leihau ei horiau gwaith, i'w adolygu ddiwedd Ionawr 2021.*

307. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU

Dywedodd y Maer y cynhaliwyd cyfarfod gyda chwmni peirianneg sifil Jones Bros. Ltd, a oedd

wedi cytuno i ddarparu'r costau ar gyfer adeiladu felodrom ar y safle a ffefrir yng Nglasdir ar fel eu cyfraniad i'r prosiect arfaethedig. Derbyniwyd llythyr gan Feicio Cymru yn cadarnhau Rhuthun fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru a byddai datganiad i'r wasg yn cael ei ryddhau yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos.
PENDERFYNWYD*: croesawu'r llythyr cadarnhau a'r gwaith ar y costau i'w wneud gan gwmni Jones Bros. Ltd.*

308. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CARCHAR RHUTHUN

Amlinelloedd y Dirprwy Faer drafodaethau Gweithgor Carchar Rhuthun, a oedd yn awyddus i ddatblygu'r Carchar fel atyniad ymwelwyr a gwneud rhagor o ddefnydd o adeilad 46 Stryd Clwyd fel amgueddfa/arddangosfa mynediad am ddim, i annog mwy o ymwelwyr i ardal y carchar gan dalu ffi mynediad. Ychwanegodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod tri aelod ward Rhuthun ar Gyngor Sir Ddinbych yn erbyn yr Archifdy'n symud o Rhuthun, a'u bod wedi mynnu cadw cyfleuster ymchwilio i hanes teulu yn 46 Stryd Clwyd, petai'r cais am gyllid i symud yr Archifau i adeilad newydd sbon pwrpasol yn yr Wyddgrug yn llwyddiannus.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

309. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan Glwb Nofio Rhuthun a'r cynllun Sied Trwsio a Rhannu.
PENDERFYNWYD*: darparu'r cymorth ariannol o £500 y gofynnwyd amdano i Glwb Nofio Rhuthun a gohirio penderfyniad ynghylch y cynllun Sied Trwsio a Rhannu nes bo'r gweithgor wedi edrych ar y cynigion yn fanwl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Amwynderau.*

310. CAIS GAN GLWB ROTARI RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau gais gan Glwb Rotari Rhuthun i oleuo'r Hen Lys yn biws i dynnu sylw at yr ymgylch Piws ar gyfer Polio, o 26 i 31 Hydref.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo goleuo'r Hen Lys yn biws i dynnu sylw at yr ymgyrch uchod.*

311. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Darllenodd y Maer lythyr gan y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson yn ymddiswyddo oherwydd fod ymrwymiadau teuluol yn golygu na allai ganolbwyntio ar faterion y cyngor tref. Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Allsopp-Robson am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r Cyngor a gofynnwyd am anfon llythyr o ddiolch ffurfiol ato. Diolchodd y Cynghorydd Allsopp-Robson i'w gyd-aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd.
PENDERFYNWYD*: derbyn yr ymddiswyddiad, hysbysu Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych, cyhoeddi'r hysbysiad sedd wag ac anfon llythyr o ddiolch at y Cynghorydd Allsopp-Robson am ei gyfraniad i Gyngor Tref Rhuthun.*

312. ARCHWILIAD MEWNOL

Hysbyswyd yr aelodau fod y prosesau Archwiliad Mewnol ac Archwiliad Allanol wedi'u hoedi oherwydd cyfnod clo Covid-19, ond eu bod yn bwrw ymlaen yn awr. Gofynnodd aelod am drefnu cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol yn fuan a chytunwyd y gellid cynnal y cyfarfod hwn ar-lein.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

313. DATGANIADAU ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiadau ariannol am y cyfnodau'n diweddu 31 Gorffennaf a 31 Awst 2020. Gwnaed cais i'r cronfeydd wrth gefn a drosglwyddwyd i'r gyllideb gael eu diweddaru erbyn y datganiad ariannol nesaf.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiadau ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf a 31 Awst 2020.*

314. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Planhigion Glyndwr Plants	Cyflenwi a phlannu 80 o blanwyr	*	£3,214.80
BA	Planhigion Glyndwr Plants	Gosod wic newydd yn y basgedi crog	*	£108.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio – Awst 2020	*	£1,134.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth torri glaswellt – Medi 2020	*	£369.84
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£939.51
BA	Hill & Roberts	Ffi gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Medi 2020	*	£84.00
BA	Clwb Peldroed Rhuthun	Hysbyseb ar ochr y cae chwarae 2020/21		£250.00

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Gwasanaeth band eang a ffôn Cwmwl	*	£65.20
BA	Newsquest Media Group Ltd	Hysbyseb ynghylch cais am drwydded i'r Hen Lys yn y Denbighshire Free Press	*	£174.00

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitem hon yn breifat heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd.
***PENDERFYNWYD**: trafod yr eitem yn breifat.*

315. CYFLOGAU STAFF

Roedd manylion cyflogau Clerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys a'r treuliau a hawliwyd yn ystod y chwe mis diwethaf wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y wybodaeth a chymeradwyo talu treuliau Rheolwr yr Hen Lys a'r cyflog yn ddyledus i Glerc y Dref.*

316. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fyddai nos Lun, 19 Hydref 2020 am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom.*